Cardiff
Evolving
Transport

# Stryd Pontcanna

## Mesurau Cadw Pellter Cymdeithasol

### Pecyn Ymgysylltu

CARDIFF
CAERDYDD



# Stryd Pontcanna

## Mesurau Cadw Pellter Cymdeithasol

### Pecyn Ymgysylltu

Mae'r Cyngor yn adolygu'r mesurau rheoli traffig dros dro sydd ar waith ar Stryd Pontcanna. Cyflwynwyd y mesurau rheoli traffig dros dro presennol i gefnogi cadw pellter cymdeithasol yn ystod pandemig Covid-19. Ar hyn o bryd mae'r mesurau hyn yn rhoi cyfle i fusnesau lleol a chaffis lleol i ddefnyddio'r ardaloedd gwarchodedig ar gyfer eistedd a bwyta yn yr awyr agored, yn ogystal ag at ddibenion cadw pellter cymdeithasol.

Hoffem glywed eich barn ar y mesurau a gyflwynwyd. Byddwn yn defnyddio'r adborth a dderbynnir i ystyried y camau nesaf, neu i lywio unrhyw ddyluniadau y gallai fod angen eu datblygu.

Mae gwybodaeth am Sut i Ymateb ar gael ar ddiwedd y ddogfen hon.



Stryd Pontcanna – Medi 2023



Stryd Pontcanna – Medi 2023

# Stryd Pontcanna

## Mesurau Cadw Pellter Cymdeithasol

## Cwestiynau Cyffredin

**Beth ydych chi'n ymgysylltu yn ei gylch yn union?** Hoffai'r Cyngor wybod eich barn ar y mesurau cadw pellter cymdeithasol a gyflwynwyd ar Stryd Pontcanna yn ystod pandemig Covid-19.

**Ydych chi'n cynnig dileu'r mesurau?** Ar hyn o bryd rydym am gael eich barn yn unig. Bydd hyn yn ein helpu i lywio'r camau nesaf o ran a oes angen i ni wneud newidiadau i gynllun y ffordd, neu os bydd newidiadau'n cael eu datblygu, beth fydd y rhain.

**Beth fyddai'r opsiynau?** Mae nifer o opsiynau ar gael, ond byddai'r rhain yn destun ymchwiliad pellach ac ymdrechion i geisio'r cyllid angenrheidiol. Yn y bôn, gallai'r opsiynau hyn gynnwys (ymhlith syniadau eraill) cadw'r cynllun presennol, dileu'r mesurau presennol a dychwelyd y ffordd i'w chynllun blaenorol, neu gyflwyno mesur parhaol.

**A oes angen iddo fod yn berthnasol i'r ardal gyfan?** Nac oes, gallem ystyried newid rhan yn unig o'r cynllun presennol. Byddai'r adborth a dderbynnir yn helpu i lywio unrhyw gynigion.

**Beth am barcio?** Fel rhan o'r camau nesaf, byddem yn adolygu'r parcio yn yr ardal gyfagos ac yn penderfynu a oes angen unrhyw fesurau ychwanegol. Gallai hyn fod yn rhan o broses Gorchymyn Rheoleiddio Traffig. Gellid ystyried nodweddion megis mannau parcio i'r anabl, safleoedd tacsis, a mannau aros neu lwytho cyfyngedig pe bai unrhyw le yn cael ei ddychwelyd yn ôl i lôn gerbydau. Bydd yr adborth a dderbynnir yn helpu i lywio'r camau nesaf.

**A fyddwn i'n gallu defnyddio fy mathodyn glas ar y ffordd?** Dim ond yn y mannau dynodedig neu lle mae cyfyngiadau parcio yn caniatáu hynny.

**Sut i roi adborth** Ar y dudalen ganlynol mae gwybodaeth am sut i ymateb. Bydd dolen yn cael ei darparu i holiadur ar-lein lle bydd nifer o gwestiynau ac opsiynau i'w hystyried, yn ogystal â chyfle i roi adborth ysgrifenedig nad yw'n cael sylw yn y cwestiynau o bosibl.

Cardiff Evolving Transport

# Stryd Pontcanna

## Mesurau Cadw Pellter Cymdeithasol

## Sut i ymateb

CARDIFF CAERDYDD

**Ymatebwch i'r ymgynghoriad hwn gan ddefnyddio'r ffurflen arolwg h**

Neu copïwch a gludwch yr URL canlynol: xxxxxxx

Bydd hyn yn eich galluogi i wneud sylwadau ffurfiol mewn ymateb i'r ddogfen ymgynghori hon.

Fel arall, e-bostiwch ProjectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ysgrifennwch at: Tîm y Rhaglen Drafnidiaeth, Ystafell 301 Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW.

**Bydd yr arolwg hwn ar agor tan xx/xx/2023**

Caiff yr holl ymatebion eu hadolygu a'u defnyddio er mwyn helpu i ysgrifennu'r adroddiad ar yr ymgynghoriad, sef un o'r dulliau a ddefnyddir i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer y cynllun.

Bydd ymatebion i gwestiynau am y cynnig ar gael yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad pan fydd ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/projectautrafnidiaeth, gan ddewis y ddolen 'ymgynghoriadau blaenorol' a dewis teitl y cynllun. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad am yr ymgynghoriad, caiff y prosiect ei gynllunio'n fanwl a'i roi ar waith, yn amodol ar gymeradwyaeth ac arian.

**Dim ond adborth a chwestiynau sy'n ymwneud â'r prosiect hwn a gaiff eu hystyried neu y gweithredir arnynt. Os oes gennych unrhyw adborth ar wasanaethau eraill y Cyngor, ewch i www.caerdydd.gov.uk**

**Ni allwn ymateb i ymatebion unigol chwaith – ond bydd yr holl ymatebion yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad am yr ymgynghoriad a fydd ar gael yn fuan wedi dyddiad cau'r ymgynghoriad. Ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei rhannu.**